Ynghlwm wrth y ddogfen hon mae fersiwn ddrafft o Gynllun Lles Sir Ddinbych ar gyfer ymgynghori.

Dyma Gynllun Integredig Sengl Sir Ddinbych, sy'n gynnwys cynlluniau statudol fel Cynllun Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Cynllun Plant a Phobl Plant, y Strategaeth Gymunedol a chynlluniau eraill. Mae hwn yn disodli'r Cynllun Mawr sy'n dod i ben eleni. Byddwch yn sylwi ein bod wedi cymryd ymagwedd wahanol tuag at gynllunio strategol yng ngoleuni'r hyn a ddysgwyd gennym o weithredu'r Cynllun Mawr ac yng ngoleuni heriau wrth gynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth yn ystod y cyfnod hwn o bwysau ariannol sylweddol.

Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg tan ddiwedd mis Awst, a byddwn yn ddiolchgar iawn o dderbyn eich barn. Fe allwch chi naill ai anfon eich sylwadau drwy e-bost at cefnogi.partneriaeth@sirddinbych.gov.uk neu lenwi'r arolwg syml ar-lein yn https://www.surveymonkey.com/s/LlesSirDdinbych

Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried a bydd newidiadau i'r cynllun yn cael eu gwneud lle y bo'n briodol. Bydd Cynllun Lles Sir Ddinbych yn cael ei gyhoeddi gan Fwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy a Sir Ddinbych ym mis Rhagfyr eleni.

Diolch am eich amser a'ch cyfraniad.

Dymuniadau gorau

Liz Grieve
Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau
Ar ran Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy a Sir Ddinbych

# Cefnogi Annibyniaeth a Gwytnwch: Cynllun Lles Sir Ddinbych

***Beth ydym yn ei olygu gan Annibyniaeth?*** Rydym yn annibynnol pan fydd gennym ryddid i wneud dewisiadau dros ein hunain a'r gallu i fyw ein bywydau gydag ychydig iawn o gymorth gan eraill.

***Beth ydym yn ei olygu gan Wytnwch?*** Rydym yn wydn pan fyddwn yn defnyddio ein hadnoddau a gwybodaeth i baratoi ar gyfer y dyfodol.

Mae'r diffiniadau hyn yn berthnasol i unigolion a chymunedau. Pan mae pobl yn gallu gwneud y gorau o'u hannibyniaeth a'i chynnal, maent yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Lle mae pobl yn cydweithio i ddatblygu a chynnal eu cymuned, mae'r sir yn gallu ffynnu.

Drwy ddarparu'r cynllun hwn byddwn yn helpu i greu amgylchedd lle mae hyn yn bosibl.

## Gweledigaeth :

- Mae pobl yn weithgar, wedi'u cysylltu ac yn cyfrannu at eu cymuned
- Mae pobl yn cymryd sylw o'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas, ac wrth wneud hynny, mae pobl yn parhau i ddysgu am eu byd
- Mae pobl yn blaenoriaethu eu lles ac yn mynd ati i gynllunio i gynnal eu hannibyniaeth

## Meysydd Blaenoriaeth

Rydym eisiau'r canlyniadau hyn i bawb yn Sir Ddinbych, ond rydym wedi nodi rhai meysydd blaenoriaeth i ganolbwyntio arnynt dros y tair blynedd nesaf:

- Heriau ein hardaloedd gwledig
- Cefnogi'r rhai mwyaf difreintiedig i adeiladu eu gwytnwch
- Adeiladu gallu cymunedau i ddatblygu a ffynnu

## Cefndir:

Y Gymru a Garem erbyn 2050: Canlyniadau Bwriedig ar gyfer Mesur Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Cymru'n ffyniannus ac arloesol
- Cymru yn genedl fwy cyfartal
- Cymru'n defnyddio cyfran deg o adnoddau naturiol
- Pobl Cymru yn iachach
- Cymunedau Cymru yn ddiogelach, cydlynol a gwydn
- Pobl Cymru'n cyfranogi yn ein diwylliant cyffredin a'r iaith Gymraeg yn ffynnu

Cafodd Cynllun Integredig Sengl cyntaf Cyngor Sir Ddinbych, Y Cynllun Mawr, ei gyhoeddi yn 2011 a gydag ef fe gyflwynwyd gwell gwaith partneriaeth i helpu i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer Sir Ddinbych. Rydym wedi dysgu nifer o wersi o'r dull hwn ac wedi defnyddio'r rhain i gynllunio a chyhoeddi ein hail gynllun integredig. Yn y cyfamser, mae'r amgylchedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn heriol wrth i ni addasu i amgylchedd ariannol anodd a pharatoi ar gyfer datblygu polisi a deddfwriaeth a fydd yn gosod gofynion newydd ar bartneriaethau lleol. Mae Mesur Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd i'w gyflwyno yng Nghynulliad Cymru yr haf hwn, wedi'i gynllunio i roi anghenion cymunedau, nawr ac yn y dyfodol, wrth wraidd y penderfyniadau y mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn eu gwneud. Fe wnaeth 'Sgwrs Genedlaethol' y Gymru a Garem ymgynghori ar y canlyniadau cenedlaethol bwriedig y bydd y

Byrddau Gwasanaethau Lleol yn debygol o roi sylw iddynt drwy ddull tymor hir, gweithio'n well gyda'i gilydd a defnyddio tystiolaeth i wneud y penderfyniadau sy'n rhoi'r gwerth gorau nawr a'r tymor hir.

Llai o themâu
Mwy o effaith
Beth sydd bwysicaf i Sir Ddinbych

## Egwyddorion

Yn y cyfamser, rydym am i Gynllun Lles Sir Ddinbych gael effaith wirioneddol a chadarnhaol ar bobl yn Sir Ddinbych. Felly, rydym wedi penderfynu canolbwyntio ar un thema lle y credwn y gall gweithio mewn partneriaeth gael yr effaith fwyaf. Drwy Gynllun Lles Sir Ddinbych rydym am:

Ychwanegu Gwerth: Nid Biwrocratiaeth
Canolbwyntio ar Ganlyniadau, nid mewnbynnau ac allbynnau

## Fframwaith ar gyfer Darparu: Pum Ffordd at Les

Datblygwyd y Pum Ffordd at Les gan y Sefydliad Economeg Newydd o dystiolaeth a gasglwyd mewn prosiect a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU o'r enw'r Prosiect Foresight ar Gyfalaf Meddyliol a Lles. Fe wnaeth y Prosiect, a gyhoeddwyd yn 2008, ddefnyddio ymchwil am les meddyliol drwy fywyd.

Cysylltwch
Byddwch yn weithredol
Cymerwch sylw
Parhewch i ddysgu
Rhowch

Mae lles - teimlo'n dda a gweithio'n dda - yn gysylltiedig yn gadarnhaol â gwahanol ganlyniadau iechyd cadarnhaol. Mae ymchwil yn dweud wrthym fod cyflyrau iechyd meddwl cadarnhaol mewn gwirionedd yn *rhagflaenu* ac yn helpu i *achosi* canlyniadau da mewn iechyd a lles. Er enghraifft, mae astudiaethau o les wedi dangos bod nifer yr achosion o hwyliau da yn rhagweld dyddiau gwaith a gollir oherwydd salwch bum mlynedd yn ddiweddarach, y tebygolrwydd o strôc chwe blynedd yn ddiweddarach ac o glefyd cardiofasgwlaidd ddeng mlynedd yn ddiweddarach.

## Beth fydd yn edrych yn wahanol o ganlyniad i Gynllun Lles Sir Ddinbych?

- Cyfranogiad eang mewn mentrau lleol - 'cyd-gynhyrchu' gyda defnyddwyr gwasanaeth wrth gynllunio a darparu gwasanaethau
- Cynnwys y cyhoedd mewn dulliau eang ac amrywiol mewn datblygiadau cymunedol
- Cyfleoedd diwylliannol ac addysgol bywiog
- Gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o gymdogaeth: "Bod yn gymydog da"

## Sut byddwn yn mesur y gwahaniaeth rydym yn ei wneud?

Mae nifer o bethau a fydd yn dangos a ydym yn gwneud gwahaniaeth drwy bwysleisio annibyniaeth a gwytnwch, a byddwn yn monitro'r dangosyddion hyn yn agos, yn ogystal â herio gwasanaeth yn gadarnhaol a mesurau perfformio partneriaeth sydd hefyd yn effeithio ar y canlyniadau rydym am eu cyflawni. **Gallai'r rhain gynnwys:**

- Aelodaeth Canolfannau Hamdden
- Aelodaeth o Sefydliadau Cymunedol
- Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Nifer y dysgwyr Cymraeg

- Rhaglenni Addysg i Oedolion
- Niferoedd gwirfoddoli
- Cyflawniadau Plant
- Mentrau rhwng cenedlaethau
- Hunanasesiadau lles
- Dangosyddion Unigrwydd
- Ymholiadau Un Pwynt Mynediad
- Ymholiadau Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Ymweliadau Adran Achosion Brys
- Ffigurau Ailalluogi
- Data Tîm o Amgylch y Teulu

## Y broses

Fe wnaeth Bwrdd Partneriaeth Strategol Sir Ddinbych[1] ddilyn y broses ganlynol i gytuno ar yr hyn a ddylai fod yng Nghynllun Lles Sir Ddinbych:

- Blaenoriaethau a nodwyd drwy Asesiad o Anghenion a Gweithgareddau Ymgysylltu â'r Gymuned
- Ymchwilio i'r hyn sydd eisoes yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau
- Penderfynu beth - os o gwbl – a fyddai'n ychwanegu gwerth at weithgareddau sydd eisoes yn bodoli
- Cytuno ar yr hyn y gellid ei gyflawni mewn Partneriaeth i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir




## Mentrau Presennol

Mae nifer o fentrau sy'n cael eu cynnal mewn partneriaeth a fydd yn ein helpu i wireddu ein gweledigaeth. Mae rhai **Enghreifftiau** o'r rhain yn cynnwys:

- ✓ Prosiect Sir Ddinbych Ddigidol (rhan o Raglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol CSDd)

Bydd llywodraethu partneriaeth drwy Gynllun Lles Sir Ddinbych yn cefnogi a herio'r mentrau hyn i sicrhau eu bod yn diwallu eu hamcanion

[1] Aelodaeth wedi'i ffurfio o wahanol swyddogion o CSDd, BCUHB, ICC, Heddlu Gogledd Cymru, Coleg Cambria, Grŵp Llandrillo Menai, DVSC

- ✓ Cynllun Gweithredu ar Dlodi Tanwydd (sy'n cael ei ddarparu gan Rhwydwaith Ymgynghori Cyngor Sir Ddinbych)
- ✓ Prosiect Cludiant Gwledig (sy'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Chadwyn Clwyd)
- ✓ Strategaeth Gwirfoddoli (strategaeth Cyngor Sir Ddinbych i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli ar draws y cyngor)

## Prosiectau Cynllun Lles Sir Ddinbych - Blynyddoedd 1-3

Yn ogystal, mae nifer o fentrau newydd yn cael eu cynnig i helpu i wireddu'r weledigaeth. Bydd Cynllun Lles Sir Ddinbych yn cael ei reoli fel rhaglen lle cytunir ar fentrau newydd gan ddefnyddio Achosion Busnes trylwyr; bydd methodoleg Rheoli Prosiect trylwyr yn sicrhau y bydd y prosiectau yn cyflawni eu hamcanion a gynlluniwyd, gan helpu i gyflawni'r deilliannau a fynegwyd.

*Rydym yn credu bod angen i ni ddeall mwy am yr hyn a ddaw yn y dyfodol ar gyfer ein cymunedau; rydym yn credu, trwy weithio mewn cydweithrediad agosach â'n gilydd a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, yna gallwn ddatblygu cymunedau annibynnol a gwydn*

- ***Cryfhau ein Cymunedau*** - Deall y newidiadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol a ragwelir ar gyfer Sir Ddinbych, a chynllunio dyfodol gwydn ar gyfer ein pobl a'n cymunedau.
- Creu dealltwriaeth lawnach o asedau ac anghenion cymunedau drwy gydweithio gyda chymunedau a gyda'n gilydd i ddatblygu cynlluniau lleol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cymunedau yn hytrach na gwasanaethau.
- Mynd ati i gefnogi datblygiad ***Bancio Amser***[2] ar draws y sir mewn ffordd arloesol, gydlynol a chynaliadwy.
- ***Grymuso a Galluogi Gwasanaethau*** - Newid unrhyw un o'n gwasanaethau sy'n analluogi neu'n cyfyngu ar annibyniaeth a gwytnwch unigolion a chymunedau. Sicrhau bod gwasanaethau yn atgyfnerthu annibyniaeth a lles pobl.
- Datblygu ***Canolfan Wybodaeth Lles*** i gefnogi pobl i ddeall a datblygu eu lles - cysylltiadau â hunanasesu lles, offer, adnoddau a chyfeiriadur lleol o gyfleoedd cymunedol i gefnogi gwell lles.
- ***Lles Gweithwyr*** **-** Fel cyflogwyr, datblygu cyfleoedd i rymuso staff i wella a chynnal eu lles ac annibyniaeth yn ystod ac ar ôl cyflogaeth. Datblygu ***Strategaeth Gwirfoddoli Partneriaeth*** i ehangu cyfleoedd i staff wirfoddoli.

*Rydym yn credu bod angen i ni newid y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau i wneud defnydd mwy effeithiol o'n hadnoddau i wella canlyniadau i bobl ar draws y sir. Mae angen i ni gydweithio yn fwy effeithiol o ran darparu gwasanaethau, cefnogi pobl i wella a chynnal eu lles i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth.*

---

[2] Mae bancio amser yn ddull o gyfnewid lle mai amser yw'r prif arian. Am bob awr mae cyfranogwr yn ei roi mewn banc amser, efallai drwy roi cymorth a chefnogaeth ymarferol i eraill, maent yn gallu 'tynnu'r' gefnogaeth gyfwerth mewn amser pan fyddan nhw eu hunain mewn angen

- ***Sir Ddinbych 50*** - Adnabod y bobl sydd â'r canlyniadau tlotaf a chydweithio ar ymyriadau cydlynol pendant i gynyddu eu hannibyniaeth a'u gwydnwch a lleihau mynediad heb ei gynllunio i wasanaethau.
- Datblygu ***Llwybrau Dilyniant Cydweithredol*** rhwng gwasanaethau a sefydliadau i gefnogi pobl i ddatblygu eu lles a gwneud y mwyaf o'u hannibyniaeth. Datblygu monitro canlyniadau a rennir i fapio teithiau defnyddwyr gwasanaeth tuag at annibyniaeth a gwytnwch.

## Cyhoeddi a Darparu Cynllun Lles Sir Ddinbych

Bydd Cynllun Lles Sir Ddinbych yn arloesol yn ei ddull drwy'r ffyrdd canlynol:

- Gwefan Fyw - datblygu gwybodaeth am annibyniaeth a gwytnwch yn Sir Ddinbych
- Mesur yn fyw - Dangosyddion a pherfformiad prosiect yn cael eu diweddaru trwy gysylltiadau wedi'u hymgorffori yn y gwasanaethau a phrosiectau
- Asesiad Anghenion a gwybodaeth fyw - adnodd gwybodaeth sy'n dangos lles Sir Ddinbych trwy amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth, ynghyd â chysylltiadau ag arfer da ar draws y DU a thu hwnt i gefnogi atebion arloesol
- Dyletswyddau Statudol - mae nifer o ddyletswyddau statudol yr ydym yn eu diwallu drwy Gynllun Lles Sir Ddinbych; bydd sut yr ydym yn cyflawni'r dyletswyddau hynny'n cael eu disgrifio ar y wefan

## Casgliad

,Drwy ganolbwyntio ar annibyniaeth a gwytnwch unigol a chymunedol, mae'r cynllun hwn yn anelu at ddatblygu'r amgylchedd cywir i bobl flaenoriaethu a chynnal eu lles; cysylltu a chyfrannu at eu cymunedau er mwyn helpu i greu a chynnal Sir Ddinbych y maen nhw ei heisiau.